

## **Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon o'r enw Gofal Sylfaenol: Clystyrau**

---

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei ymchwiliad i ofal sylfaenol. Mae clystyrau yn amlwg yn elfen bwysig o agenda bolisi Llywodraeth Cymru. Mae yna elfennau pwysig eraill, wrth gwrs. Er enghraifft:

- symud y ffocws mewn arweinyddiaeth a buddsoddi oddi wrth salwch ac ysbytai a thuag at ofal sylfaenol
- recriwtio a chadw
- y fframweithiau cytundebol cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod corff yr adroddiad yn cydnabod yr amrediad eang o waith da sy'n cael ei wneud gan glystyrau a sut y maent wedi datblygu ers cyhoeddi'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru yn 2014. Mae hyn yn ategu'r sylwadau cadarnhaol a wnaed gan adolygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn 2016 o'r systemau gofal iechyd yn y DU a'r adroddiad interim gan yr Adolygiad Seneddol o iechyd a gofal cymdeithasol.

Rwy'n nodi nad yw'r argymhellion yn cydnabod y cynnydd a wnaed gan glystyrau mewn cyfnod byr. O'm rhan fy hun, byddaf yn parhau i annog y clystyrau i ddatblygu ac aeddfedu fel y dull cywir o gynllunio gofal lleol hygyrch a chynaliadwy.

Mynegais yn glir yn fy nhystiolaeth fod angen inni ofalu nad ydym yn rhy ragnodol o ran y ffordd y dylid datblygu'r clystyrau. Ein nod yw sicrhau bod ganddynt yr hyblygrwydd angenrheidiol i ymateb i heriau ac asesiadau o anghenion lleol, ond gan ddarparu fframwaith y gall y clystyrau a'r byrddau iechyd weithredu o'i fewn.

Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar feysydd gwaith yr ydym eisoes wedi'u cydnabod sydd eu hangen, yn ein cynllun cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol yng Nghymru. Esboniais yn fy nhystiolaeth fod gwaith ar hyn yn mynd rhagddo neu wedi'i gynllunio. Bydd adroddiad y Pwyllgor yn helpu i lywio'r gwaith hwnnw.

**Mae'r Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:**

**Argymhelliad 1 - Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi model newydd ar gyfer clystyrau gofal sylfaenol sy'n adfer gweledigaeth wedi'i diffinio'n glir ar eu cyfer o ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd.**

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Cyflwynir gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer clystyrau gofal sylfaenol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan Gronfa'r Brenin, yn ein cynllun cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru. Ers cyhoeddi'r cynllun yn 2014, rwyf wedi gweithio gyda chynllunwyr a darparwyr gwasanaethau, a byddaf yn parhau i wneud hynny, er mwyn datblygu dealltwriaeth fwy manwl o fanteision cydweithio ar y lefel

leol hon. Trwy'r cydweithredu hwn, bydd modd defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael, nid dim ond rhai'r GIG, i gynllunio a darparu mynediad cyfartal i ofal cynaliadwy o ansawdd uchel, a hynny mor lleol â phosibl, er mwyn cyflawni'r angen a nodwyd.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, *Ffyniant i Bawb*, yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i glystyrau.

Byddwn yn ymhelaethu ar ein gweledigaeth yn ein cynllun gweithredu ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol, sydd i'w gyhoeddi fis Ebrill nesaf. Bydd y cynllun yn cael ei lywio gan yr hyn a ddysgwyd o'r ymarfer hyd yma, adroddiad y Pwyllgor a chanlyniad yr Adolygiad Seneddol o iechyd a gofal cymdeithasol.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol

**Argymhelliad 2 - Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer clystyrau gofal sylfaenol i gyd-fynd â'r model newydd [Argymhelliad 1]. Dylai hyn gynnwys arfer da a dylai nodi: fframwaith llywodraethu sylfaenol; cylch gorchwyl enghreifftiol; aelodaeth graidd a awgrymir; gofynion o ran cworwm ar gyfer cyfarfodydd; prosesau gwneud penderfyniadau a awgrymir.**

**Ac**

**Argymhelliad 3 - Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei disgwyliad bod clystyrau gofal sylfaenol yn gweithredu mewn ffordd fwy ystwyth yn hytrach na chael eu cyfyngu gan brosesau gwneud penderfyniadau byrddau iechyd. Dylai'r canllawiau [Argymhelliad 2] nodi proses glir ar gyfer dirprwyo penderfyniadau i glystyrau.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gytuno ar set o drefniadau llywodraethu ar gyfer Cymru gyfan er mwyn helpu'r clystyrau i ddatblygu ac aeddfedu. Mae amseriad y gwaith hwn wedi bod yn bwysig. Yn gyntaf, roeddem yn awyddus i osgoi llethu gormod ar y clystyrau yn nyddiau cynnar eu datblygiad. Yn ail, roeddem am i'r trefniadau elwa ar yr hyn a ddysgwyd, gan gydnabod bod y clystyrau ar gamau gwahanol o ran eu haeddfedrwydd.

Mae cyfarwyddwyr gofal sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl eisoes wedi dechrau ar y gwaith paratoi. Byddant yn cynnal gweithdy ym mis Chwefror 2018 i lunio'r tefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer y ffordd orau bosibl i'r clystyrau weithredu. Bydd y rhain yn manteisio ar yr hyn a ddysgwyd ac ar yr arferion da hyd yma. Yn bwysig, byddant yn galluogi yn hytrach nag yn rhagnodi'n ormodol, a byddant wedi'u llunio i gefnogi llwybr datblygu unigol pob clwstwr. Byddaf yn gofyn i'r bwrdd gofal sylfaenol cenedlaethol gytuno ar y trefniadau llywodraethu hyn erbyn Mehefin 2018.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.

**Argymhelliad 4 - Dylai Llywodraeth Cymru bennu amserlen ar gyfer cyhoeddi cynlluniau clwstwr gofal sylfaenol i hyrwyddo tryloywder a galluogi gwaith craffu mewn modd amserol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol i Gymru yn nodi'n glir ddisgwyliad Llywodraeth Cymru y dylai cynlluniau ar lefel clystyrau ategu ac ysgogi cynlluniau byrddau iechyd. Mae cynlluniau ar lefel clwstwr yn cael eu cyhoeddi'n barod ar wefan Llywodraeth Cymru. Er budd tryloywder pellach, byddaf yn rhannu fy ymateb i'ch argymhellion gyda chadeiryddion ac is-gadaeiryddion y byrddau iechyd. Yn fy llythyr atynt, byddaf yn gofyn iddynt gyhoeddi cynlluniau eu clwstwr, ynghyd â chynlluniau'r byrddau iechyd, ar eu gwefannau cyhoeddus erbyn mis Ebrill bob blwyddyn. Bydd hyn yn dechrau gyda'r cynlluniau ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2018-2021.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.

**Argymhelliad 5 - Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a gweithredu ymgyrch genedlaethol sydd wedi'i hanelu at gleifion sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r model clwstwr gofal sylfaenol. Gan adeiladu ar yr ymgyrch 'Dewis Doeth', dylid ei anelu'n benodol at newid agweddau a hyrwyddo'r farn bod gan bob gweithiwr proffesiynol ym maes gofal sylfaenol yr un gwerth yn eu meysydd o arbenigedd.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £0.21 miliwn yn ddiweddar ar gyfer 2017-18 i gefnogi camau gweithredu lleol, gan ddefnyddio naratif y cytunwyd arno'n genedlaethol, i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o fanteision newidiadau. Fodd bynnag, dim ond un rhan o'r gwaith o newid agweddau'r cyhoedd yw hwn. Mae'r ffordd y mae gwleidyddion, grwpiau proffesiynol a'r cyfryngau yn cyfeirio at weithwyr iechyd proffesiynol yn cael effaith bwerus ar y cyhoedd.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.

**Argymhelliad 6 - Dylai canllawiau Llywodraeth Cymru [Argymhelliad 2] nodi ffyrdd ymarferol ac enghreifftiau o sut y dylai clystyrau gofal sylfaenol a staff gofal eilaidd ymgysylltu â'i gilydd er mwyn cyflawni'r disgwyliadau presennol i glystyrau gael effaith ar ofal eilaidd a gofal heb ei drefnu.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y trefniadau llywodraethu sy'n cael eu datblygu ar gyfer gwaith clwstwr, y cyfeiriwyd atynt yn yr ymateb i argymhellion 2 a 3, yn egluro'n glir sut y mae modd i

waith clwstwr alluogi cydweithio rhwng pobl sy'n gweithio ym maes gofal sylfaenol ac eilaidd. Bydd hyn yn cynnwys enghreifftiau o arferion da o ran gweithio integredig mewn gofal wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio, gyda'r gofal yn cael ei ddarparu mor lleol â phosibl.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.

**Argymhelliad 7 - Dylai canllawiau Llywodraeth Cymru [Argymhelliad 2] egluro ei disgwyliadau ar gyfer clystyrau o ran eu heffaith ar anghydraddoldebau iechyd lleol a hefyd i ba raddau y dylent fod yn bwrw ymlaen â gwaith ataliol. Dylai hefyd gynnwys enghreifftiau o arfer da.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae cynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru eisoes yn nodi camau gweithredu clir a phenodol ar lefel clwstwr er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn canlyniadau iechyd ac er mwyn chynllunio a chyflenwi gofal a chymorth mwy ataliol.

Mae enghreifftiau o'r fath yn cynnwys modelau gwasanaeth sy'n cael eu profi gan Fyrddau Iechyd Aneurin Bevan a Chwm Taf er mwyn mynd i'r afael â'r ddeddf gofal gwrthgyfartal. Mae hyn yn golygu cynyddu swm a dwyster y gwasanaethau i bobl sy'n byw mewn ardaloedd clwstwr mwy difreintiedig yr aseswyd bod ganddynt risg uwch o glefydau cardiofasgwlaidd, a'u helpu i reoli'r risg.

Enghreifftiau pwysig eraill ar gyfer datblygu gofal ataliol yw'r modelau amrywiol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol er mwyn cyfeirio pobl mewn ffordd fwy systematig at yr amrediad eang o wasanaethau llesiant anghlinigol lleol sy'n cael eu darparu gan y trydydd sector.

Bydd y trefniadau llywodraethu ar gyfer gwaith clwstwr, y cyfeiriwyd atynt yn yr ymateb i argymhellion 2 a 3, yn atgyfnerthu'r cyfleoedd sydd ar gael ar lefel clwstwr. Byddwn yn archwilio beth yn rhagor y gellid bod ei angen yng nghyd-destun canlyniad yr Adolygiad Seneddol o iechyd a gofal cymdeithasol a'n cynllunio gweithredu ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol sydd i'w gyhoeddi fis Ebrill nesaf.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.

**Argymhelliad 8 - Fel mater o frys rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i ddatrys y problemau sy'n ymwneud â statws cyflogaeth staff clwstwr, indemniad, pensiwn a materion cyllido. Dylai hyn gynnwys archwilio'r potensial i glystyrau gofal sylfaenol gael eu statws cyfreithiol eu hunain.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae cyfarwyddwyr gofal sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl byrddau iechyd eisoes wedi nodi enghreifftiau o bob rhan o Gymru o atebion arloesol ar gyfer

materion megis indemnedd a statws cyflogaeth sy'n deillio o ddarparu gwasanaethau ar lefel clwstwr. Er mwyn rhannu'r rhain yn systematig ar draws Cymru gyfan, cyhoeddir y rhain ar wefan Gofal Sylfaenol Un newydd, a lansiwyd ar 16 Tachwedd.

Ystyrir y mater o statws cyfreithiol a'r gwaith clwstwr gorau posibl fel rhan o'r trefniadau llywodraethu sy'n cael eu llunio ac y cyfeirir atynt yn yr ymateb i argymhellion 2 a 3.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.

**Argymhelliad 9 - Dylai Llywodraeth Cymru nodi fframwaith i sefydlu paramedrau proffesiynol ar gyfer staff clinigol sy'n adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau newydd a rhai sy'n cael eu datblygu. Dylai hefyd nodi ei disgwyliadau o ran trefniadau goruchwyllo clinigol mewn clystyrau gofal sylfaenol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae trefniadau goruchwyllo clinigol mewn clystyrau gofal sylfaenol yn cael eu trafod fel rhan o'r gwaith a nodais yn fy ymateb i argymhelliad 8.

Rydym wedi nodi bod rolau a chyfrifoldebau newydd yn faterion i'w hystyried gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru o fis Ebrill 2018 ymlaen.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.

**Argymhelliad 10 - Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad cenedlaethol ar waith i gydgyssylltu anghenion hyfforddi a datblygu o fewn clystyrau. Dylai hefyd nodi ei disgwyliadau o ran sut y bydd anghenion hyfforddi yn cael eu nodi mewn ffordd systematig ar lefel leol.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r byrddau iechyd i gefnogi eu clystyrau er mwyn nodi a chynllunio sut i fynd i'r afael â'u hanghenion datblygu unigol hwy.

Yn genedlaethol, mae cyfarwyddwyr gofal sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl byrddau iechyd yn gweithio gyda hwb gofal sylfaenol Iechyd Cyhoeddus Cymru a Tîm 1000 o Fywydau, a byddant yn parhau i wneud hynny, er mwyn darparu rhaglen gydgyssylltiedig o hyfforddiant a chymorth datblygu sefydliadol i glystyrau. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y Rhaglen Arweinwyr Hyderus i arweinwyr clystyrau a chyfres o ddigwyddiadau ar gyfer rhannu gwersi ac arferion da. Mae'r Tîm 1000 o Fywydau hefyd yn darparu cefnogaeth ar lefel leol, wedi'i theilwra i anghenion lleol.

## **Argymhelliad 11 - Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cyllid datblygu clystyrau'n cael ei ddyrannu i glystyrau unigol ar sail tair blynedd yn hytrach nag un flwyddyn.**

### **Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu'r £10 miliwn o'r gronfa genedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol er mwyn i glystyrau benderfynu sut i fuddsoddi'n rheolaidd. Mae clystyrau wedi buddsoddi mewn cymysgedd o ddulliau rheolaidd a dulliau nad ydynt yn rheolaidd. Wrth i swyddogaeth gynllunio'r clystyrau aeddfedu, bydd y clystyrau'n dod yn fwyfwy abl i wireddu'r cyfleoedd sy'n deillio o wneud penderfyniadau ar sut i ddefnyddio'r cyllid hwn drwy eu cynlluniau treigl 3 blynedd.

Lle bo clystyrau wedi buddsoddi mewn gwaith profi ar atebion arloesol, bydd y broses flynyddol o ddiwygio'r cynlluniau tair blynedd yn rhoi'r modd iddynt wneud penderfyniadau ynghylch yr hyn y dylid rhoi'r gorau iddo a'r hyn y dylid ei ddatblygu a'i brif-ffrydio trwy gynlluniau lefel 3 y byrddau iechyd lleol, gan ddefnyddio gyllid disgresiynol craidd y byrddau iechyd. Bydd hyn yn ei dro yn rhyddhau arian o'r £10 miliwn fel y gall y clystyrau ei ailfuddsoddi.

## **Argymhelliad 12 - Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad i nodi'r ffrydiau ariannu gofal sylfaenol cyfredol er mwyn gweithio tuag at resymoli a chynyddu effaith cyfanswm y cyllid sydd ar gael.**

### **Ymateb: Gwrthod**

Drwy lythyr dyrannu blynyddol byrddau iechyd, mae'r ffrydiau ariannu rheolaidd ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol dan gontract eisoes wedi'u nodi'n glir ar ffurf cyllid wedi'i glustnodi, neu gyllid a nodwyd ar wahân, er mwyn sicrhau'r lefelau gwariant sylfaenol gan fyrddau iechyd (ac eithrio presgripsiynu). Mae'r dyraniad ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Phresgripsiynu Ysbytai a Chymunedol hefyd yn ariannu costau presgripsiynu gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal sylfaenol ehangach. Mae'r canlynol yn ddolen i'r llythyr dyrannu ar gyfer 2017-18 - <http://gov.wales/docs/dhss/publications/161221whc055cy.pdf>

Mae'r llythyr dyrannu hefyd yn nodi enghreifftiau o gyllid rheolaidd a roddir i fyrddau iechyd o'r gronfa gofal sylfaenol genedlaethol, gan gynnwys dyrannu £10 miliwn i fyrddau iechyd ar gyfer clystyrau gofal sylfaenol - Tabl 6. Mae Tabl B1 yn cynnwys y dyraniadau sydd wedi'u clustnodi ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig a'r cyllid i gefnogi'r cynlluniau cyflawni cenedlaethol.

## **Argymhelliad 13 - Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd ac arweinwyr clystyrau i sefydlu prosesau gwneud penderfyniadau clir ar gyfer**

## **gwerthuso a datblygu modelau llwyddiannus yn gyflym a dirwyn i ben arian ar gyfer mentrau llai llwyddiannus**

### **Ymateb: Gwrthod**

Mae proses ar gyfer gwneud penderfyniadau eisoes yn bodoli ar gyfer profi ffyrdd newydd ac arloesol o drefnu a darparu gofal sylfaenol a nodi arferion da i'w cyflwyno ledled Cymru a'r hyn y dylid rhoi'r gorau iddo. Hon yw'r rhaglen genedlaethol ar gyfer pennu cyfeiriad, a sefydlwyd yn 2015-16 gan ddefnyddio £3.8 miliwn o'r gronfa gofal sylfaenol genedlaethol. Mae'n debyg mai'r model o ofal sylfaenol ambroffesiwn sy'n cael ei arwain yn glinigol ac sy'n cael ei gynllunio a'i ddarparu drwy'r clystyrau yw'r arfer da mwyaf arwyddocaol sy'n cael ei dderbyn yn eang sydd wedi deillio o'r rhaglen genedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer gwerthusiad beirniadol allanol o'r rhaglen genedlaethol ar gyfer pennu cyfeiriad, a disgwylir i'r gwerthusiad hwn gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2018.

Mae penderfyniadau ar ehangu arferion da a nodwyd drwy'r rhaglen genedlaethol a chanlyniadau cadarnhaol mentrau lleol eisoes yn bodoli ar ffurf y cynlluniau treigl tair blynedd y mae clystyrau a byrddau iechyd yn eu cynhyrchu bob blwyddyn.

Rwy'n derbyn bod angen i'r broses o fabwysiadu ac addasu arferion da ddigwydd yn gyflymach ac ar raddfa fwy. Byddaf yn gofyn i'r byrddau iechyd adolygu eu prosesau cynllunio i sicrhau bod y gwaith o werthuso mentrau lleol llwyddiannus yn cael ei wneud mewn modd systematig a chymesur. Rhaid i fentrau aflwyddiannus ddod i ben. Rhaid i fentrau llwyddiannus gael eu datblygu, gan ddefnyddio adnoddau ariannol disgrisiynol craidd y byrddau iechyd. Dylai hyn ryddhau cyllid ar lefel clwstwr i'w fuddsoddi mewn mentrau newydd arloesol.

Byddaf yn monitro canlyniadau diriaethol y byrddau iechyd wrth gynyddu graddfa'r model o ofal sylfaenol sydd wedi dod i'r amlwg ar sail y rhaglen gosod trywydd. Byddaf yn gofyn i'r bwrdd gofal sylfaenol gyuno, yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2017, ar gerrig milltir i lywio'r gwaith o weithredu'r model ledled Cymru. Bydd y byrddau iechyd i gyd yn defnyddio'r cerrig milltir hyn wrth ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer 2018-21.

Mae rhannu dysg ac arferion da mewn ffordd systematig yn bwysig. Cafodd y wefan newydd Gofal Sylfaenol Un ei lansio ar 16 Tachwedd. Mae'n cynnwys cronfa o enghreifftiau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol o arferion da a dysg i gynorthwyo cynlluniau ar lefel clwster ac ar lefel bwrdd iechyd.

**Argymhelliad 14 - Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd i gynnal adolygiad o'r ystâd gofal sylfaenol gyda chyfeiriad penodol at y capasiti ffisegol ar gyfer gweithio amlddisgyblaethol a'r gofynion ariannu cyfalaf i gefnogi'r modelau gofal newydd.**

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae gan bob bwrdd iechyd gyfrifoldeb i gomisiynu gwasanaethau a dyfarnu contractau i gontractwyr meddygon teulu a sicrhau bod y cyfleusterau ar gyfer

darparu gwasanaethau o'r fath yn addas at y diben. Er bod Llywodraeth Cymru yn gallu dylanwadu ar hyn a'i gefnogi mewn nifer o ffyrdd, y byrddau iechyd, drwy weithio drwy'r clystyrau, sy'n bennaf cyfrifol am reoli, nodi a blaenoriaethu buddsoddiadau.

Mae cynllun cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru yn nodi'n glir yr angen am gyfleusterau creadigol a hyblyg i ddarparu gofal amlddisgyblaeth integredig yn agos at gartrefi pobl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda chyfarwyddwyr gofal sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl y byrddau iechyd ac rydym wedi cytuno yn ddiweddar ar 19 o brosiectau gofal sylfaenol a chymunedol ar hyd a lled Cymru, i'w cyflawni erbyn 2021. Bydd y prosiectau hyn yn buddsoddi mewn cenedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal integredig sy'n ymrwymiad allweddol yn *Symud Cymru Ymlaen* ac yn gonglfaen yn *Ffyniant i Bawb*.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.

**Argymhelliad 15 - Mae'r Pwyllgor hwn eisoes wedi cynnwys gwaith craffu ar y Seilwaith TGCh sy'n cefnogi'r GIG yn ei flaenraglen waith. Roedd adroddiad interim yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi'r angen am gyfnewid data yn well o fewn GIG Cymru ac i ddarparwyr gwasanaethau eraill; y bydd angen elfen allweddol ohono'n cynnwys cysylltu TGCh iechyd a gofal cymdeithasol yn well. Mae'r rhain yn faterion allweddol i ategu gwaith clwstwr a rhaid i Lywodraeth Cymru nodi cynllun mewn ymateb i'r adroddiad terfynol ar yr Adolygiad Seneddol.**

#### **Ymateb: Derbyn**

Mae cynllun gofal sylfaenol cenedlaethol Llywodraeth Cymru a'n strategaeth Iechyd a Gofal Gwybodus - strategaeth ddigidol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru yn nodi'n glir bod seilwaith TG yn alluogwr hollbwysig wrth ddarparu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amlbroffesiwn integredig gorau posibl. Mae cyfarwyddwyr gofal sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl byrddau iechyd wedi creu bwrdd TG a gwybodaeth gofal sylfaenol cenedlaethol er mwyn datblygu'r agenda hon.

Ymhlith y camau gweithredu allweddol ar gyfer gwella'r broses o gyfnewid data rhwng GIG Cymru a darparwyr eraill mae:

- Datblygu un cyfeiriadur ar gyfer gwasanaethau, a fydd yn ategu'r gwasanaeth ffôn 111 a gwefannau a gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth awdurdodau lleol ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, er mwyn gallu cyfeirio pobl yn effeithiol at gyngor ac arweiniad iechyd sydd wedi bod yn destun proses sicrwydd ansawdd.
- Creu porth clinigol gofal sylfaenol sy'n darparu dangosfwrdd o wybodaeth glinigol allweddol – sy'n darparu data ar lefel practisau, clystyrau a byrddau iechyd.



- Cyflwyno System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru – system gyffredin ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sy'n galluogi i wybodaeth am gleifion/cleientiaid gael ei rhannu'n ddiogel ac effeithiol. Mae naw awdurdod sy'n gweithredu'r system hon ar hyn o bryd – Cyngorau Sir Pen-y-bont ar Ogwr, Ceredigion, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Gwynedd, Ynys Môn a Thorfaen, yn ogystal â Bwrdd Iechyd Addysgu a Chyngor Sir Powys.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.

**Argymhelliad 16 - Mae rhoi tystiolaeth ynghylch a yw clystyrau gofal sylfaenol yn fodel effeithiol ac yn sicrhau gwerth am arian yn hanfodol. Fel mater o frys, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod mecanwaith llawer mwy eglur a chadarn ar gyfer gwerthuso gwaith clwstwr. Er gwaethaf yr heriau clir, rhaid rhoi sylw i sut y gall mecanweithiau gwerthuso ddechrau mesur effaith gwaith clwstwr ar ganlyniadau cleifion.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae ein cynllun cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol i Gymru wedi'i ategu gan dystiolaeth gan Gronfa'r Brenin mai'r ffordd fwyaf effeithiol o asesu anghenion poblogaeth a chynllunio a darparu gofal i ddiwallu'r angen hwnnw yw gwneud hyn ar lefel leol iawn ymysg poblogaeth o rhwng 25,000 a 100,000. Mae tystiolaeth adolygiad OECD yn 2016 o systemau iechyd y DU ac adroddiad interim yr Adolygiad Seneddol o iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu tystiolaeth bellach o werth gwaith clwstwr.

Er mwyn mesur effaith cydweithredu lleol ar ganlyniadau iechyd a llesiant eu poblogaethau, gall clystyrau ddefnyddio canlyniadau'r gwaith o werthuso'u mentrau lleol a'r set newydd o fesurau ansawdd a darparu gofal sylfaenol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Rwy'n disgwyl i'r wybodaeth hon fod yn arwydd dibynadwy o werth clystyrau. Bydd rhannu'r wybodaeth hon yn helpu i lywio a chyfiawnhau cynlluniau'r dyfodol ar lefel clwstwr ac ar lefel bwrdd iechyd trwy Gymru.

**Vaughan Gething AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Cabinet Secretary for Health and Social Services